



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

#BarodAm20mya

20mya

pecyn cymorth cyfathrebu ac ymgysylltu

Helpwch ni i sicrhau bod trigolion eich ardal yn barod am y terfyn cyflymder o 20mya newydd a gyflwynir 17 Medi 2023.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnig asedau creadigol, negeseuon, a chanllawiau i'ch helpu chi a'ch sefydliad i ryngweithio â'r ymgyrch a'i chefnogi.

Cymraeg. Fersiwn Saesneg ar gael.



20mya: Terfyn cyflymder newydd i Gymru

Gan ddechrau ar 17 Medi 2023, bydd terfyn cyflymder o 20mya ar gyfer gyrwyr yn dod i rym ar 'ffyrdd cyfyngedig' ledled Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o gyfyngiadau cyflymder 30mya yn lleihau o 30mya i 20mya.

Ystyr 'cyfyngedig' yn yr achos hwn yw ffyrdd sydd â goleuadau stryd ddim pellach na 200 llath ar wahân. Fel arfer, mae'r rhain mewn ardaloedd sy'n llawn adeiladau, gyda cherddwyr yn mynd a dod yn barhaus.

Fe wnaeth astudiaeth iechyd cyhoeddus Cymru amcangyfrif y gallai'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya arwain at:

- ostyngiad o **40%** mewn gwrthgawiadau ffordd
- achub **6 -10 bywyd** bob blwyddyn
- ac osgoi anafiadau i **1,200-2,000** o bobl bob blwyddyn

Pasiwyd deddfwriaeth [Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig \(Cyfyngiadau Cyflymder 20 mya\) \(Cymru\) 2022](#) gan y Senedd y llynedd. O dan y ddeddfwriaeth hon, awdurdodau lleol a'r ddwy asiantaeth gefnffyrdd fydd yn penderfynu pa ffyrdd ddylai aros gyda chyflymder o 30mya.

Mae Llywodraeth Cymru yn lansio ymgyrch codi ymwybyddiaeth sy'n dechrau ar 17 Mawrth 2023 er mwyn hysbysu'r cyhoedd am y terfynau newydd sy'n cael eu cyflwyno. O 17 Mawrth, bydd yr ymgyrch yn mynegbostio at y tudalennau glanio canlynol (tudalennau gwe a wnaed yn 'fyw' ar 17 Mawrth yn unig):

- [Barod Am 20](#) (Cymraeg)
- [Get Ready for 20](#) (Saesneg)

Ceir rhagor o wybodaeth am y polisi ar LLYW.Cymru:

- [Tudalen wybodaeth y polisi](#) (Cymraeg)
- [Policy information page](#) (English)

Pecyn cymorth cyfathrebu #BarodAm20mya

Beth sy'n digwydd: Yr ymgyrch

Bydd ymgyrch codi ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei lansio ar 17 Mawrth, yn cynnwys hysbysebion digidol, cyfryngau cymdeithasol, a hysbysebion radio dwyieithog ledled Cymru. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan weithgarwch ar y cyfryngau megis hysbysiadau i'r wasg.

Yn yr ymgyrch hon, mae gan Awdurdodau Lleol pob rhan o Gymru rôl hynod bwysig i'w chwarae o ran helpu i sicrhau bod trigolion lleol yn deall yn llwyr y newidiadau sy'n dod i rym.

Cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Bydd y cynnwys 20mya yn cael ei rannu o'r prif sianeli cyfryngau cymdeithasol hyn:

Yn Gymraeg

- [Twitter](#)
- [Facebook](#)

Yn Saesneg

- [Twitter](#)
- [Facebook](#)

Sut i gymryd rhan yn yr ymgyrch

Dyma beth allwch chi ei wneud i gefnogi'r ymgyrch yn eich ardal chi:

- Rhannu negeseuon ac asedau creadigol ar eich **sianeli cyfryngau cymdeithasol** neu gylchlythyrau mewnol ac allanol chi
- **Ailbostio cynnwys** yn uniongyrchol o sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru
- Rhoi tudalennau polisi 20mya penodol ar **eich gwefan** neu rai rhannau ar dudalennau sy'n bodoli gennych eisoes
- Creu **straeon newyddion lleol** am 20mya a thynnu sylw pobl leol at eithriadau
- Ystyried a allai eich cerbydau fflyd gymryd rhan mewn bod yn **gar cyflymder 20mya** mewn ardaloedd lleol

Prif Negeseuon

Prif negeseuon Llywodraeth Cymru yw:

- The new 20mph default speed limit will be introduced on 17th September 2023
- Reducing speeds to 20mph will help save lives and protect our communities
- The 20mph default speed limit will affect most 30mph roads, which are generally residential or busy pedestrian streets with street lights.
- Bydd y terfyn cyflymder newydd o 20mya yn cael ei gyflwyno ar 17 Medi 2023
- Bydd lleihau'r cyflymder i 20mya yn helpu i achub
- Bydd y terfyn cyflymder 20mya yn effeithio ar y rhan fwyaf o ffyrdd 30mya, sydd yn amlach na pheidio'n strydoedd preswyl neu'n strydoedd presur y gerddwyr lle mae goleuadau stryd.

Defnyddiwch yr hashnodau: **#ReadyFor20mph / #BarodAm20mya**

Lawrlwythwch ein cyfres lawn o asedau dwyieithog [yma](#).

Negeseuon enghreifftiol y mae croeso i chi eu defnyddio

Postiwch y **negeseuon parod** hyn ar Facebook, Instagram, Twitter, neu unrhyw blatfform arall rydych chi'n ei ddefnyddio.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r hashnod **#BarodAm20mya / #ReadyFor20mph**

Prif negeseuon

Mae cyfyngiadau 20mya yn cael eu cyflwyno mewn ardaloedd ledled Cymru lle mae pobl yn byw, gweithio, dysgu a chwarae, o 17 Medi 2023. #BarodAm20mya

Across Wales, most roads with 30mph default speed limits are changing to 20mph from the 17th September 2023. #ReadyFor20mph

Ffocws ar ddiogelwch

Ledled Cymru, mae'r cyfyngiadau cyflymder yn newid o 30mya i 20mya gan ddechrau ar 17 Medi 2023. Gadewch i ni chwarae ein rhan i ddiogelu ein cymunedau. #BarodAm20mya

Across Wales, the default speed limit is changing from 30mph to 20mph starting on 17th September 2023. Let's play our part in protecting our communities. #ReadyFor20mph

Cofiwch ddefnyddio'r dolenni hyn wrth rannu asedau ymgyrchu a negeseuon:


- http://www.llyw.cymru/barodam20?utm_source=toolkit (Cymraeg)
- http://www.gov.wales/getreadyfor20?utm_source=toolkit (Saesneg)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Asedau creadigol

Postiwch yr [asedau creadigol](#) hyn ar eich tudalennau Facebook, Instagram, Twitter, neu ychwanegwch faneri i'ch gwefan a'ch troednodyn e-bost. Maent ar gael mewn meintiau amrywiol.



Byddwch yn barod am y 20mya


O 17 Medi, bydd y rhan fwyaf o derfynau cyflymder 30mya yn newid i 20mya.

#BarodAm20mya

Get ready for 20mph

From 17th September, most 30mph limits will change to 20mph in Wales.

#ReadyFor20mph





Mae 20 yn fwy diogel:

Dewch i ni ofalu am ein gilydd

O 17 Medi, bydd y rhan fwyaf o derfynau cyflymder 30mya yn newid i 20mya.

#BarodAm20mya


Safer at 20:

Let's look out for each other

From 17th September, most 30mph limits will change to 20mph in Wales.

#ReadyFor20mph





Byddwch yn barod am y 20mya


O 17 Medi, bydd y rhan fwyaf o derfynau cyflymder 30mya yn newid i 20mya.

#BarodAm20mya

Get ready for 20mph

From 17th September, most 30mph limits will change to 20mph in Wales.

#ReadyFor20mph



Lawrlwythwch pob un o'r asedau, [yma](#). Bydd y ddolen hon yn cael ei diweddaru drwy gydol yr ymgyrch.

Os bydd arnoch angen unrhyw ased benodol sydd ddim yn y gyfres o asedau a gynhwysir drwy fynd i'r ddolen hon, e-bostiwch 20mph@lynn.global. Gwneir pob ymdrech i ystyried yr holl geisiadau creadigol.

Ymdrin â sylwadau negyddol

Dyma gyngor ar sut i ymdrin ag ymateb negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch cyflwyno cyfyngiadau 20mya.

A fyddwn ni'n cael sylwadau negyddol?

Byddwch - heb os, bydd yna rai sy'n anghytuno neu'n gwrthwynebu'r polisi.

Mae'n bwysig cofio nad yw sylwadau negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynrychioli barn y boblogaeth gyfan.

Mae'r rhai sydd â barn negyddol yn llawer mwy tebygol o gyhoeddi'r farn honno ar-lein na'r rhai sydd â barn gadarnhaol, sydd felly'n rhoi camargraff.

Sut i ddelio â theimladau negyddol

- Ystyriwch bostiadau lled-reolaidd gan gyfeirio at y Rheolau Tŷ sydd gennych ar gyfer eich sianeli, gan ei gwneud yn glir y bydd y sawl sy'n eu torri yn colli mynediad i'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol
- Os nad oes gennych Reolau Tŷ, ystyriwch lunio rhai. Llwyn mesur da ar gyfer y canllawiau hyn yw **“bydd unrhyw beth fyddai'n cael ei daflu allan o adeilad cyhoeddus hefyd yn cael ei daflu oddi ar ein sianeli”**
- Os oes rhywun yn bod yn **sarhaus** neu **fygythiol** yn eich adran sylwadau, rydym yn argymhell eu blocio
- Os oes rhywun yn bod yn rhy negyddol yn eich adran sylwadau, heb gwestiwn na phwrpas clir, rydym yn argymhell cuddio'r sylw
- Os oes rhywun yn bod yn negyddol ond gyda chwestiwn gwirioneddol, nid ydym yn argymhell eu cyfyngu. Yn hytrach, gofynnwch iddyn nhw anfon neges at y dudalen / cyfrif
- Gallwch **annog ymddygiad cymdeithasol-fuddiol** drwy ymgysylltu'n gadarnhaol â phobl sy'n ymgysylltu'n adeiladol yn yr adran sylwadau, er mwyn cadarnhau'r arferiad cymdeithasol

Mae cell camwybodaeth 'Lynn' wedi creu canllawiau ar sut i ddelio â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Gwelir y pecyn cymorth [yma](#).




Brwydro yn erbyn camwybodaeth ynghylch 20mya

Diben **pecyn cymorth 20mya** yw rhoi'r hyder sydd ei angen ar gyfathrebwyr a chefnogwyr i ddal eu tir yn rhagweithiol yn wyneb anwybodaeth am bolisi 20mya newydd Llywodraeth Cymru.

Dyma'r hyn a welwch yn y pecyn cymorth:

- Arferion gorau yn wyneb camwybodaeth
- Argymhellion prif naratif a gwrth-naratif
- Beth i siarad amdano a beth i beidio siarad amdano
- Argymhellion tactegol wrth weithredu

Ar hyn o bryd, **nid yw Llywodraeth Cymru yn argymhell** y dylid gweithredu ar chwalu mythau. Bydd awdurdodau lleol a phartneriaid yn cael eu diweddarau pan fydd y canllawiau hyn yn newid. Fodd bynnag, os dymunwch, gallwch ddod o hyd i wybodaeth gywir a chyfredol ar wefan Llywodraeth Cymru **yma**.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diolch i chi am gefnogi #BarodAm20mya



Ydych chi eisiau gwneud mwy i gefnogi'r ymgyrch?
Gadewch inni wybod trwy ebostio 20mph@lynn.global

Cymraeg. Fersiwn Saesneg ar gael.